

Amgueddfa Cymru



Paratoi ar gyfer Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang



PECYN FFYNONELLAU

Gallwn ddysgu llawer am ymfudo, tlodi a llafur plant drwy astudio hanes Cymru.

Astudiwch y ffynonellau hyn am fywyd a gwaith yn niwydiant copr yn Abertawe yn y 19eg ganrif. Bydd y ffynonellau yn eich helpu i ddeall pam y gwnaeth pobl symud neu ymfudo i'r ardal. Byddant yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn a wnaethant yn y gwaith, yr amodau a'u teimladau am y sefyllfa. Bydd y ffynonellau yn eich helpu i ymchwilio i'r tlodi a oedd yn bodoli yn ardal Abertawe yn y 19eg ganrif.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, gallwch ymweld ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe. Gallwch hefyd ymchwilio i wefannau fel 'Byd Copr Cymru' a dilyn cynnydd project cyffrous gan Brifysgol Abertawe a chyingor Abertawe i gynnal ac adfywio bywyd yng ngweithfeydd copr Hafod/Morfa. Mae ffynonellau sylfaenol fel adroddiad 1842 ar y Pyllau Glo hefyd yn dweud llawer wrthym am y diwydiant copr yn y 19eg ganrif. Gallwch ddod o hyd i adroddiadau ar Byllau Glo De Cymru, ar wefan Coalmining History Resource Centre. Ar BBC ar-lein, gallwch ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol a chlipiau fideo ar lanweithdra ac amodau byw yn nhrefi diwydiannol Prydain yn y 19eg ganrif. Mae gwefan BBC Bitesize 'Changing Britain' yn cynnwys mwy o glipiau am faterion iechyd cyhoeddus mewn trefi ym Mhrydain yn ystod y Chwyldro Diwydiannol.

Cyfeithiadau i'r Gymraeg, yn hytrach na'r gwreiddiol, yw nifer o'r ffynonellau hyn.

MATER: YMFUDO A THLODI
FFOCWS: LLAFUR PLANT

FFYNHONNELL 1: Addaswyd o *From the Cradle to the Coalmine*, C. Thompson (Gwasg Prifysgol Cymru, 2014)

Mae plant wedi cael eu cyflogi ym maes amaethyddiaeth a diwydiant yng Nghymru ers canrifoedd. Cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oedd llafur plant yn cael ei ystyried yn beth drwg bob tro. Er enghraifft, pan ysgrifennodd Daniel Defoe am ei ymweliad â Sir Gaerhirfryn ym 1724, gwelodd blant pedair oed yn gweithio yn y diwydiant cotwm ac roedd yn falch bod ganddynt waith buddiol. Ystyriwyd plentyndod yn gyffredinol yn gyfnod lle y dysgwyd sgiliau wrth baratoi ar gyfer cyflogaeth fel oedolyn.

Erbyn y 1840au roedd yn gyffredin i blant weithio mewn pyllau glo, gweithfeydd haearn neu gopr. Ystyriwyd plant dosbarth gweithiol yn 'oedolion bach' ac roedd disgwyl iddynt gyfrannu at incwm y teulu. Ychydig o ysgolion oedd ar gael felly roedd gwaith yn atal plant rhag gwneud drygau. Roedd llawer o ddiwydianwyr yn gweld cyflogi plant fel ffynhonnell lafur rad a oedd yn sicrhau eu bod yn gystadleuol. Ystyriwyd plant yn weithwyr diwydiannol delfrydol; roeddent yn ufudd, yn fach ac yn ystwyth ac felly'n addas ar gyfer technoleg y ffatrioedd a'r pyllau glo. Gallent weithio rhwng peiriannau mewn melinau tecstilau neu ffyrdd cul tanddaearol.

Roedd rhai diwygwyr cymdeithasol, fel Elizabeth Barrett, eisiau rhoi terfyn ar lafur plant, gan ddadlau nad oedd y plant fawr mwy na chaethweision. Roeddent yn cyhuddo rhieni o anfon eu plant i weithio naill ai er mwyn ennill mwy o arian iddyn nhw eu hunain neu er mwyn dod â dau ben llinyn ynghyd gan eu bod mor dlawd. Roeddent yn cyhuddo perchnogion pyllau cyfoethog a oedd yn cyflogi plant o fod yn farus a byw bywydau bras ar yr elw a wnaethant o lafur plant.

Gosododd Deddf Ffatrioedd 1833 gyfyngiadau ar oedran ac oriau gweithio plant ond nid oedd y cyfyngiadau hyn yn berthnasol i'r pyllau glo. Ym 1840, llwyddodd yr Arglwydd Ashley (Iarlwr Shaftesbury yn ddiweddarach) i ddarbwyllo'r Senedd i sefydlu Comisiwn Brenhinol i ymchwilio i oed, rhyw, nifer ac amodau gwaith plant a gyflogwyd yn y diwydiant glofaol. Casglwyd tystiolaeth gan gyflogwyr, meddygon, athrawon, clergiwyr, rhieni, glowyr a oedd yn oedolion a'r plant eu hunain. Daeth y comisiynwyr o hyd i dystiolaeth o drais, damweiniau, oriau hir, clefydau'r ysgyfaint sy'n gysylltiedig â gwaith ac amodau gwaith erchyll.

FFYNHONNELL 1

Syfrdanwyd y cyhoedd gan Adroddiad terfynol y Comisiynwyr, yr adroddiad llywodraeth cyntaf i ddefnyddio lluniau. Yn y Senedd, gofynnodd Aelodau Seneddol am gyfreithiau newydd i amddiffyn plant yn y pyllau glo. Brwydrodd rhai perchnogion pyllau glo yn galed yn erbyn hyn. Yn Nhŷ'r Arglwyddi dadleuodd yr Arglwydd Londonderry, perchennog pwll glo, fod rhai twneli mor gul fel mai dim ond plant fyddai'n gallu gweithio ynddynt. Yn ogystal, dywedodd nad oedd unrhyw un yn cael ei orfodi i weithio dan ddaear ac mai'r rhieni eu hunain oedd eisiau i'r menywod a'r plant weithio; byddai'r tlawd yn dioddef pe bai'r gyfraith yn cael ei newid.

Ym 1842 pasiwyd deddf newydd, Deddf y Pyllau Glo, a oedd yn gwahardd pob menyw a bechgyn dan ddeg oed rhag gweithio yn y pyllau glo. Sefydlodd y Ddeddf hefyd system o arolygu pyllau glo i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Fodd bynnag, nid oedd y Ddeddf yn cyfyngu ar oriau gwaith ac nid oedd yn berthnasol i blant na menywod a oedd yn gweithio ar wyneb y pyllau glo.

FFYNHONNELL 2: Addaswyd o'r erthygl ar wefan *A World of Welsh Copper*

Yn dilyn sefydlu gweithfeydd mwyndoddi copr yn ne Cymru, erbyn 1851 roedd Cymru yn ganolbwynt y diwydiant copr a'r wlad gyntaf i ddod yn wlad ddiwydiannol. Gyda mynediad i lo er mwyn gweithio peiriannau a phorthladdoedd ar gyfer allforio, roedd trefi fel Abertawe mewn lleoliad delfrydol ar gyfer mwyndoddi copr. Cafodd perchnogion pyllau glo, fel y teulu Vivian, eu denu gan yr arian y gellid ei wneud yn y diwydiant, gan fuddsoddi mewn sefydlu gweithfeydd mwyndoddi enfawr a llwyddiannus yn Abertawe, Castell-nedd a Llanelli.

Arweiniodd y galw cynyddol am gopr at ddenu busnes o dramor ac erbyn canol y 19eg ganrif roedd mwynau yn dod i Gymru i gael eu mwyndoddi o wledydd pell fel Chile, Cuba a De Awstralia.

Roedd Abertawe wrth wraidd y datblygiad diwydiannol hwn a daeth i gael ei hadnabod fel 'Copperopolis'. Erbyn y 1820au roedd y diwydiant copr yn darparu gwaith i 1,000 o ddynion yn y diwydiannau glo a llongau a oedd yn cefnogi'r gweithfeydd copr. Tyfodd y boblogaeth i dros 10,000.

Pa effaith gafodd y diwydiant copr ar Gymru a gweddill y byd?

Wrth i'r Chwyldro Diwydiannol gyflymu, cynyddodd y galw am gynnyrch copr. Roedd y copr pur yn hanfodol i ddiwydiannau eraill fel tunplatïo (a oedd hefyd yn digwydd yn ne Cymru, yn Llanelli yn bennaf). Roedd y sorod copr a gynhyrchwyd ar ôl mwyndoddi yn ffurfio deunyddiau adeiladu defnyddiol am ei fod yn drwchus a chaled. Gallwch weld y garreg dywyll, galed hon mewn llawer o waliau a thai o amgylch Abertawe, er enghraifft.

Arweiniodd technegau masgynhyrchu a oedd yn datblygu mewn rhannau eraill o Brydain at alw newydd am gynnyrch i ddefnyddwyr, yn enwedig ymhlith y dosbarth canol, dosbarth a oedd yn prysur gynyddu yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Er enghraifft, roedd Birmingham a Sheffield yn cynhyrchu eitemau fel sosbenni copr wedi'u mowldio, botymau pres a chyllyll a ffyrç wedi'u gorchuddio ag arian, i'w gwerthu ledled Prydain a'u hallforio dramor.

Heddiw, mae pobl yn dal i fyw mewn tai a gynlluniwyd ar gyfer gweithwyr, ac a ddarparwyd gan uchelwyr neu berchnogion ar gyfer eu gweithwyr. Adeiladwyd Abaty Singleton yn wreiddiol fel

plasty ar gyfer John Henry Vivian a oedd yn adnabyddus yn y byd copr, a sefydlwyd Oriel Gelf Glynn Vivian yng nghanol dinas Abertawe gan bedwerydd mab John, Richard, ym 1911.

Yn anffodus, arweiniodd y galw am copr at gynnydd ym Masnach Caethweision yr Iwerydd. Roedd llafur caethion yn gyffredin ym mwynloddiau'r Byd Newydd, yn arbennig yn Cuba, ac roedd diwydianwyr o Gymru yn gyfrifol am ariannu llawer ohonynt drwy ofyn am fwynau rhatach i'w mewnfario ar gyfer y gweithfeydd mwyndoddi yng Nghymru.

Pryd a pham y dirywiodd y diwydiant copr?

Tuag at ddiwedd y 19eg ganrif, canfuwyd ffynonellau glo newydd dramor a sefydlwyd canolfannau mwyndoddi newydd yn agosach at ffynonellau mwynau copr, yn arbennig yng Ngogledd a De America, De Affrica ac Awstralia.

Wrth i'r symiau o fwynau a ddaeth i Gymru i'w prosesu leihau, dioddefodd y diwydiant copr yng Nghymru, gan arwain at ddiweithdra. Fodd bynnag, roedd galw mawr am weithwyr copr o Gymru mewn rhannau eraill o'r byd, yn arbennig yn Pennsylvania yn yr Unol Daleithiau. Penderfynodd llawer

FFYNHONNELL 2

o weithwyr copr a'r perchnogion adael Cymru gan fynd â'u sgiliau gyda nhw. Fodd bynnag, roedd y dirywiad yn raddol ac ni chaeodd Gweithfeydd Copr Hafod ei ddrysau tan 1981.

Beth oedd yr effaith ar yr amgylchedd?

Nid oedd popeth am y diwydiant copr yn gadarnhaol. Roedd amodau gwaith ac amodau byw'r rhai oedd yn gweithio yn y maes hwn, yn arbennig yn y 19eg ganrif, yn llym ac roedd yr effaith ar yr amgylchedd yn frawychus. Roedd yr aer yn drwch o fwg a'r safleoedd diwydiannol yn greithiau ar yr amgylchedd. Heddiw, gallwch weld planhigfeydd conwydd a gwair gwyrdd ffrwythlon sydd wedi tyfu dros fryniau a glannau afonydd a oedd unwaith yn grastir. Mae'r afon yn gartref i bysgod a rhywogaethau dyfrol unwaith eto, ac nid yw'n strbyn oren fel o'r blaen. Gellir gweld rhywfaint o olion yr hen weithfeydd copr yn y ddinas o hyd, ac mae diddordeb yn eu cynnal a'u cadw fel safleoedd hanesyddol pwysig.

FFYNHONNELL 3: Ymfudo a'r diwydiant copr yn y 19eg ganrif (Amgueddfa Cymru)

Cyn y 19eg ganrif y prif ddiwydiannau yn ardal Abertawe oedd ffermio, pysgota a masnach. Yn raddol, yn ystod y 19eg ganrif, dechreuodd pobl ymfudo o gefn gwlad i'r trefi diwydiannol. Roedd nifer o resymau am hyn:


- Roedd y bobl oedd yn gweithio ar ffermydd ar gyflogau isel ac yn byw mewn tai llwm a sylfaenol. Yn aml roeddent yn dioddef cynaeafau gwael ac roedd pris bwyd yn uchel. Roedd gweithwyr copr yn cael cyflogau uwch o lawer ac fel arfer roeddent yn cael yr arian hwn yn wythnosol fel gweithwyr heb sgiliau yn y dref. Dim ond yn flynyddol fyddai gweithwyr fferm yn cael eu cyflog. O ganlyniad, daeth pobl o gefn gwlad i chwilio am swyddi yn y diwydiant copr yn y dref.
- Sefydlwyd ysgolion lleol ar gyfer plant y gweithlu gan lawer o feistri'r gweithfeydd Copr, ac roedd hyn cyn adeg addysg wirfoddol neu addysg rad ac am ddim. Adeiladwyd tai ar gyfer y gweithwyr gan lawer o'r meistri

FFYNHONNELL 3

hefyd – adeiladodd John Morris, a etifeddodd Weithfeydd Copr Forest ei dad yn Nhreforys, floc o fflatiau ar gyfer glowyr. Mae'r fflatiau i'w gweld hyd heddiw

- Ym 1846 roedd newyn tatws ofnadwy yn lwerddon. Gadawodd miloedd o Wyddelod eu cynefin i weithio yn ne Cymru ddiwydiannol a llwyddodd llawer ohonynt i ddod o hyd i waith yng ngweithfeydd copr ardal Abertawe

FFYNHONNELL 4: Bywyd a gwaith yn y diwydiant copr (Amgueddfa Cymru)



VIEW OF THE HAROD COPPER WORKS,
ON THE SWANSEA RIVER, WALES.
CONSTRUCTED BY MESSRS. STEEL & SONS.
A.D. 1810.

AMGUEDDFA CYMRU

Tai

Yn ystod y 19eg ganrif, dechreuodd llawer o berchnogion gweithfeydd copr adeiladu tai crand iddynt hwy eu hunain; fel arfer ar gyrion y dref.

Y tai pellaf o'r dŵr oedd tai'r glowyr a'r gweithwyr copr, a adeiladwyd ar ochrau'r bryniau neu'r cymoedd, weithiau wrth ymyl ffordd y tramiau neu'r wagenni. Roedd gweithwyr copr a glowyr yn tueddu i fyw ar wahân. Tueddai'r gweithwyr copr i fyw mewn tai a oedd yn agosach at y gweithfeydd a adeiladwyd gan feistri'r gweithfeydd copr.

FFYNHONNELL 4

Yn Abertawe, fel mewn mannau eraill, roedd tai'r gweithwyr fel arfer yn llaith a heb eu hawyru'n ddigonol, ac nid oedd ganddynt gyflenwad dŵr na draeniau. Os oedd y tai islaw wyneb ffordd neu gamlas, neu yn erbyn llethr serth, nid oedd ffenestri yn y waliau cefn fel arfer ac roeddent yn llaith iawn.

Roedd yn gyffredin gweld cytiau moch a phentyrrau o sbwriel yn yr iard gefn. Roedd hyn yn bennaf am fod y bobl a fu'n byw yn y wlad yn addasu i fyw mewn tref; roedd llawer o'r gweithwyr copr a bron bob un o'r glowyr wedi ymfudo o ardaloedd gwledig. Erbyn 1845 roedd Cwmni Gwaith Dŵr Abertawe yn darparu cyflenwad dŵr i ddim ond tua 470 o gartrefi o blith cyfanswm o 3,369 o dai.

Yn ôl un awdur modern, roedd Hafod ym 1840 yn frith o dai wedi'u hadeiladu o gerrig a sorod, yn boddi cefn gwlad: 'serried rows of back to back houses that eat their way through hedge and field, to climb and spread as best they may, unplanned, throughout the Vale. Hastily built, ugly, insanitary and overcrowded, these were the homes of the people'.

Amodau gwaith a Llafur Plant

Roedd yr amodau gwaith yn galed hefyd. Roedd bechgyn mor ifanc ag 8 oed yn glanhau pyllau llwch, yn iro olwynion a pheirianwaith, yn cludo glo a mwyn i'r ffwrneisi ac, fel 'cobbers', yn torri'r sorod er mwyn dod o hyd i gopr i'w ail-doddi. Roedd eraill yn helpu i biclo (glanhau), didoli a thorri'r dalenni copr. Byddai menywod a merched yn torri'r mwyn yn dalpiau y gellid eu trin, yn gwahanu'r mwyn o'r rwbel ac yn cludo mwyn a glo i'r calchynwyr a'r ffwrneisi. Roedd eraill yn casglu wrin o'r tai lleol, ac yn ei gludo i'r gweithfeydd – i'w ddefnyddio i lanhau neu 'biclo' dalenni copr – mewn tybiau cul a oedd yn gorffwys ar eu pennau.

Yr effaith fwyaf ar iechyd y gweithwyr oedd y mygdarth o'r broses o buro'r copr – roedd yr asid sylffwrig, yr arsenig a'r mygdarth a gynhyrchwyd wrth losgi glo ar gyfer y broses fwyndoddi yn creu llygredd mawr.

FFYNHONNELL 5: Addaswyd o erthygl ar wefan *Wales Online*, 31 Mawrth 2011

Ymfudo o Iwerddon i Gymru yn y 19eg ganrif

Mae ymfudo ar draws Môr Iwerddon wedi bod yn digwydd ers canrifoedd. Ond a gafodd yr ymfudwyr hyn eu croesawu fel cefndryd Celtaidd neu eu hystyried yn dresmaswyr nad oedd croeso iddynt?

Am ganrifoedd, roedd y Cymry'n ystyried y Gwyddelod yn bobl anwaraidd. Roeddent yn edrych ar eu cymdogion ar ochr draw'r môr mewn ffordd anffafriol a gellir crynhoi eu hagweddau fel cymysgedd o ddiffyg ymddiriedaeth ac ofn. Er enghraifft, ystyriwch y saer maen, yr hynafiaethydd a'r bardd radical Edward Williams (Iolo Morgannwg) a ysgrifennodd ym 1799: "Tri pheth a gar Gwyddel, Trais, a Thwyll, a Cherddi"

O'r 1820au ymlaen dechreuodd ymfudwyr Gwyddelig ymddangos mewn trefi diwydiannol newydd a oedd yn ehangu, gan gynnwys ardal Abertawe lle y cyflogwyd llawer yn y diwydiant copr. Arweiniodd drwgdeimlad yn erbyn Gwyddelod at gynifer â 20 o derfysgoedd gwrth-Wyddelig yng Nghymru yn ystod y 19eg ganrif. Roedd y tensiynau ethnig yn arbennig o wael ym Morgannwg, lle y cafodd y mewnfudwyr eu cyhuddo

o weithio am gyflogau is. Mewn gwirionedd, nid oes tystiolaeth gadarn i ddangos bod Gwyddelod wedi cael cyflogau is na gweithwyr brodorol ac mae'n debygol mai bwch dihangol cyfheus oedd yr estroniaid hyn, ac roedd yn hawdd eu beio pan oedd pethau'n anodd.

Clefyd a newyn

Yn ystod y cyfnod 1845-50, roedd newyn mawr yn Iwerddon yn dilyn methiant y cnwd tatws. Gadawodd tua miliwn o ffoaduriaid y wlad. Daeth llawer o'r ffoaduriaid hyn, a oedd yn dioddef o glefydau a newyn, i Gymru yn chwilio am fywyd gwell. Roeddent yn teithio ar draws y môr mewn llongau gorlawn ac amodau gwarthus. Yn ôl un sylwebydd, cyrhaeddodd y newydd-ddyfodiaid gyda dim mwy na "haint a newyn".

Mewn ymgais ofer i atal y llif, byddai swyddogion yn erlyn capteiniaid llongau am gludo gormod o deithwyr. Ymatebodd y capteiniaid drwy osgoi'r croeso oeraidd a oedd yn eu haros yn y prif borthladdoedd a dadlwytho'u cargo o bobl ar draethau mewn cilfachau bach ar hyd yr arfordir. Mewn un achos trasig

FFYNHONNELL 5

ym mis Mai 1847, bu i un Gwyddel a laniodd i ffwrdd o borthladd Caerdydd fodd i yn y gwastadeddau llaid ger Penarth wrth i'r llanw ddod i mewn.

‘Barbariaeth Wyddelig’

Arweiniodd cyfuniad o nodweddion at ymdeimlad o argyfwng trefol. Ymhlith y rhain roedd dyfodiad ffoaduriaid tlawd ac anghenus, epidemig o amrywiol glefydau, yr amharu ar yr economi leol a'r galw cynyddol am gymorth ar gyfer pobl dlawd. Cafodd Gwyddelod eu gwneud yn fwch dihangol, pobl y gellid eu beio am yr holl broblemau. Enghraifft o hyn oedd y terfysg yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 1848. Yn dilyn ffrwgwd meddwol ar benwythnos cafodd Cymro ei drywanu a'i ladd gan Wyddel. Arweiniodd y drosedd hon at ymosodiad gan y gymuned gyfan ar dai pobl Wyddelig a chapel Catholig Dewi Sant. Penderfynodd llawer o Wyddelod ac offeiriad Catholig ffoi o'r dref yn ofni am eu bywydau. Er eu bod yn ddieuog o unrhyw drosedd, cawsant eu disgrifio gan y wasg leol fel “yr enghreifftiau gwaethaf o farbariaeth Wyddelig”.

Roedd y degawdau ar ôl y newyn yn gyfnod anodd i'r gymuned Wyddelig yng Nghymru.

Roedd llawer yn byw mewn tlodi yn y rhannau tlotaf o drefi, ar wahân i weddill y gymuned o ganlyniad i'w harferion nodedig a'r grefydd Gatholig. Roeddent yn cymryd rhan mewn nifer fawr o fân droseddau, ac mewn rhannau o Gymru wledig, roedd yr ymadrodd “dwyn fel Gwyddel” yn gyffredin. Roedd rhai cyhoeddiadau hiliol yn portreadu Gwyddelod fel meddwon diog gan ddefnyddio lluniau a oedd yn debyg i fwncïod i'w portreadu.

Newid agweddau

Fodd bynnag, nid oedd yr holl ymfudwyr Gwyddelig yn dlawd ac yn anghenus, hyd yn oed yn ystod y blynyddoedd o newyn. Roedd llawer ohonynt yn wahanol iawn i'r stereoteip o Wyddelod fel alltudion tlawd a meddw, heb sgiliau. Er nad oedd y mwyafrif ohonynt yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol er mwyn sicrhau swyddi gwell, cyflogwyd lleiafrif arwyddocaol mewn galwedigaethau medrus a'r proffesiynau, a rhai yn y diwydiant copr.

Llwyddodd rhai unigolion i ddod i amlygrwydd mewn bywyd cyhoeddus e.e. dod yn feiri yn eu trefi. Roedd rhai meddygon Gwyddelig yn gyfrifol am ofal meddygol mewn nifer o drefi

FFYNHONNELL 5

ac aneddiadau diwydiannol. Chwaraeodd masnachwyr glo Gwyddelig a phobl fusnes eraill ran allweddol ym mywyd Cymru hefyd.

Yn raddol, drwy hyrwyddo delweddau cadarnhaol o'u bywyd a'u diwylliant, llwyddodd y Gwyddelod i ddangos eu bod yn bobl ofalgar a chrefyddol a allai gyfoethogi cymdeithas yng Nghymru. Gwnaeth rhwydwaith o gymdeithasau Gwyddelig a sefydlwyd mewn trefi ledled de Cymru o'r 1830au ymlaen argraff dda ar bobl Cymru. Cymdeithasau budd-dal gwirfoddol oedd y rhain a oedd yn darparu yswiriant i aelodau yn erbyn salwch, diweithdra a marwolaeth. Roedd gan y cymdeithasau eu bandiau eu hunain hefyd a byddent yn cymryd rhan mewn gorymdeithiau cyhoeddus drwy'r strydoedd i ddathlu Diwrnod San Padrig, Sulgwyn, a dathliadau cyhoeddus eraill. Roedd achlysuron o'r fath yn gyfle i aelodau o'r gymuned Wyddelig ddangos eu hochr "barchus" i'w cymdogion.

Gwleidyddiaeth ac undebau llafur

Yn ystod y 1860au a'r 1870au dechreuodd llawer o ymfudwyr Gwyddelig a oedd yn byw yng Nghymru gefnogi sefydliad chwyldroadol a threisgar, sef y Ffeniaid. Roedd y Ffeniaid

yn ymgyrchu dros lwerddon annibynnol a chafodd sawl un o'r arweinwyr eu harestio oherwydd eu gweithgareddau. Yn sgil arestiadau a threialon proffil uchel sawl un o arweinwyr y Ffeniaid yn Abertawe ym 1868, lledaenodd y syniad fod Gwyddelod yn beryglus ac yn annibynadwy, gan wneud rhai Cymry yn ddrwgdybus o Wyddelod a oedd yn byw ac yn gweithio yn eu plith, ac yn elyniaethus tuag atynt. Wrth ysgrifennu am grogi dau Wyddel a oedd wedi llofruddio Cymro ym Mynwy, dywedodd y Cardiff and Merthyr Guardian (Awst 1850) fod gan Wyddelod 'wefusau anifail y Celt Gwyddelig' a 'dim rhinwedd o gwbl.'

Yn raddol, daeth arweinwyr gwleidyddol Gwyddelig a oedd yn credu mewn protestio a newid mewn dull mwy heddychlon yn fwy poblogaidd a dechreuodd y Cymry weld nad oedd y Gwyddelod a oedd yn byw yn eu plith yn chwyldroadwyr treisgar. Erbyn y 1880au dechreuodd y berthynas rhwng ymfudwyr Gwyddelig a'r gymuned leol mewn trefi fel Abertawe wella. Ar yr un pryd hefyd, roedd undebau llafur yn datblygu ac yn dod yn llais pwerus ar gyfer gweithwyr diwydiannol. Safodd gweithwyr o Gymru ac lwerddon ochr yn ochr fel aelodau ac arweinwyr y sefydliadau newydd.

FFYNHONNELL 6: Llafur Plant ac *Adroddiad 1842 ar y Pyllau Glo*

Dyfyniad 1: John Thomas, 59 oed, a George Hughes, 46 oed, fformyn yng Ngweithfeydd Copr, Abertawe

Rydym yn gofalu am y bechgyn a'r merched sy'n llafurio yn y gweithfeydd ... Mae tua 60 o fechgyn a 70 o ferched, gyda thua'u hanner yn iau na 13 oed. Y gwaith caletaf y mae'r bechgyn yn ei wneud yw gweithio yn y "calchynwyr," (ffwrneisi). Ar ôl y calchynwyr, y gwaith caletaf oedd cludo glo a lludw i'r ffwrneisi mwyndoddi ac ohonynt. Gwneir hyn yn bennaf gan ferched 13 i 18 mlwydd oed. Maent yn dechrau ar eu gwaith am chwech y bore ac os byddant yn llwyddo i gludo digon ar gyfer eu ffwrnais maent yn gadael rhwng tri a phedwar yn y prynhawn ond mae rhai yn aros mor hwyr â chwech neu'n hwyrach fyth.

Nid ydym yn credu bod y plant yn gorweithio yma, ond ... ni fyddem yn dewis magu ein merched yn y gweithfeydd. Ymddengys fod y bechgyn a'r merched yn iach a bron byth yn colli diwrnod o waith o ganlyniad i salwch ... Mae llawfeddyg yn cael ei dalu'n rheolaidd gan y gweithfeydd. Mae'r dynion yn talu 1d. yr wythnos yr un iddo ac mae'r merched a'r bechgyn yn talu 1/2d. yr wythnos yr un. Mae'r dynion yn mwynhau yfed alcohol ac mae'r menywod yn ei chael hi'n anodd cadw rheolaeth arnynt.

Dyfyniad 2: William Rees tua 16 oed, calchynnwr yng Ngweithfeydd Mwyndoddi Copr Whiterock, Abertawe

Rwyf wedi bod yn gweithio ers i mi droi'n 12 mlwydd oed. Bellach rwy'n llafurio ac yn llenwi'r ffwrneisi rhostio, rwy'n gweithio o chwech tan chwech ac yn cael amser ar gyfer prydau bwyd. Rwyf wedi bod i'r ysgol ac yn gallu darllen ac ysgrifennu. Rwy'n mynd i Ysgol Sul. Rwy'n iach ar hyn o bryd ond rwyf wedi bod yn gweithio fel calchynnwr ac nid oeddwn yn iach bryd hynny, roedd y mwg a'r sylffwr o'r ffwrnais yn effeithio ar fy mrest gan fy ngwneud i'n sâl. Rwy'n ennill cyflog o 7s. 7d. yr wythnos.

Dyfyniad 3: Charles Evans, 14 oed, calchynnwr yng Ngweithfeydd Copr Hafod, Abertawe

Dechreuais weithio pan oeddwn i'n naw mlwydd oed. Rwy'n cludo'r mwyn copr a'i daflu i'r ffwrnais. Mae'r gwaith yn galed am fod rhaid i ni ei oddef am 24 awr i gyd.... Dim ond un ddamwain ddifrifol rwyf wedi'i dioddef a digwyddodd honno'n ddiweddar gan olygu bod rhaid i mi gael tair wythnos o'r gwaith. Tra'n codi mwyn, torrodd y craen drwy gyhyrau fy mraich.

Nid aeth i unrhyw ysgol erioed.

FFYNHONNELL 6

Dyfyniad 4: Isaac Davies, 15 oed, gweithiwr yng Ngweithfeydd Copr Hafod yn Abertawe

Rwy'n gweithio'r wythnos hon. Rwy'n cael fy nghadw wrth gefn. Roeddwn yn gweithio fel calchynnwr yr wythnos ddiwethaf. Dyna'r gwaith caletaf. Dydw i erioed wedi cael damwain. Mae fy nhad wedi marw ac mae chwech o blant gan fy mam, fi yw'r ieuengaf. Mae gennyf ddau frawd sy'n gweithio yma. Rwy'n ennill cyflog o 5s. yr wythnos.

Dyfyniad 5: Thomas Hopkins, 16 oed, gweithiwr copr yn Hafod

Rwyf wedi bod yn gweithio am saith neu wyth mlynedd. Rwy'n iach a heb gael unrhyw ddamwain.

(Dywedodd y comisiynydd ei fod wedi disgyn oddi ar lwyfan tua phedwar mis yn ôl a thorri ei goes. Mae bellach yn iach ac yn gweithio eto.)

Dyfyniad 6: Cyflogau a gwariant wythnosol teulu copr

William Jones aged 36, copper men at Llanelly, Carmarthenshire, has a wife, aged 47, with four children aged 16, 10, 4 and 1 years. Earnings 15s. wife 2s. Total earnings 17s.

Weekly Expenditure.			
	£	s.	d.
24 lbs. of flour at 2½d.	0	4	6
15 lbs. of barley at 1½d.	0	1	10½
Cheese 7 lbs. at 4d.	0	2	4
Butter 2 lbs. at 11d.	0	1	10
2 lbs. sugar at 8d.	0	1	4
1 oz. tea at 6d.	0	0	6
1 oz. of coffee	0	0	2
1 lb. of salt	0	0	0½
Oatmeal	0	0	2
½ lb. candles at 7½d.	0	0	3¾
Blue and starch	0	0	1
2 ozs. of tobacco	0	0	7½
Rent per week	0	1	6
	0	15	10¾

Feeds pig worth £4 and grows his own potatoes, has his coal from the works in addition to wages.

Dyfyniad 7: Mr. Edward Brown, clerc ac ariannwr, Gweithfeydd Mwyndoddi Copr Whiterock, Abertawe

Nid oes unrhyw beth yn ein gweithfeydd y gellid ei ystyried yn beryglus naill ai i iechyd neu'r bobl sy'n gweithio yn yr adrannau gwahanol. Anaml iawn y caiff bechgyn dan 13 oed eu cyflogi ond mae hyn, i raddau helaeth, yn ôl disgresiwn y rhieni ac

FFYNHONNELL 6

nid ydynt fel arfer yn dod â'u plant cyn eu bod yn 10 mlwydd oed. Byddai gwahardd gwaith gyda'r nos ar gyfer plant a phobl ifanc...yn achosi anhawster ar adegau, gan fod angen eu llafur ar gyfer rhai o'r prosesau ac nid yw'r dynion ar gael bob amser i lenwi'r lleoedd hynny.

Mae perchnogion y gweithfeydd hyn wedi sefydlu ysgol fabanod ac ysgol ar gyfer bechgyn ...lle mae plant y gweithwyr yn cael addysg ar raddfa o 1d. yr wythnos. Mae cronfa salwch hefyd y mae pob aelod yn talu 3d. yr wythnos iddi.

Nid yw cymeriad cyffredinol y gweithwyr yn wahanol i gymeriad dynion eraill yn yr ardal gyfagos, o ran moesau ac addysg ond mae cynnydd mawr yn nifer y siopau cwrw a thafarndai wedi tueddu i gael effaith negyddol ar foesau'r plant a'r gweithwyr.

Dyfyniad 8: David Rees, 36 oed, asiant Gweithfeydd Copr Cambrian, Llanelli

Nid yw'r bechgyn yn cael eu curo'n aml yn y gweithfeydd pan fyddant yn esgeuluso'u gwaith neu'n ymladd neu'n defnyddio iaith anweddus. Ar adegau cânt eu curo gyda ffon gan y stiward ond nid gan neb arall.

Mae'r gweithfeydd wedi'u hawyru'n dda. Cesglir yr holl fwg a tharth o'r ffwrneisi mewn un simnai neu stac sydd bron 200 troedfedd o uchder ac nid oes gwres annioddefol lle mae'r bechgyn yn gweithio. Nid oes llawer o salwch ymhlith y dynion na'r bechgyn ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gwynion arbennig sy'n deillio o'u cyflogaeth. Ychydig o ddamweiniau sydd wedi digwydd o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf ac ni chafwyd unrhyw ddamwain ddifrifol.

Dyfyniad 9: Mr Edward Budd, asiant yng Ngweithfeydd Copr Hafod, Abertawe

Yn gyffredinol, maent (y gweithwyr) yn iach iawn, ac anaml y cânt eu heffeithio gan epidemigau neu grydau (salwch), os byth. Mae llawer yn byw i oedran da, rhai dros eu 90, ac roedd y marwolaethau ymhlith y gweithwyr yn y sefydliad hwn dros y pedair blynedd ddiwethaf yn llai nag 1.25% y flwyddyn.

FFYNHONNELL 6

Dyfyniad 10: Datganiad Mr W. P. Evans, llawfeddyg yng Ngweithfeydd Copr Hafod

Mae cyflwr corfforol y plant a gyflogir yng Ngweithfeydd Hafod yn ... iach, cryf a chadarn.

Mae'r plant yn cael pedwar pryd bwyd y dydd. Mae ansawdd eu bwyd bron bob amser gyda'r gorau ac mae'r amseroedd a ganiateir i'r plant fwyta yn ddigonol i gynnal iechyd a chryfder plant a gyflogir mewn llafur parhaus. Caiff y plant eu gwisgo mewn dillad priodol. Ar y cyfan, maent yn iach. Yn ystod y pum mlynedd rwyf wedi gweithio fel llawfeddyg yn y gweithfeydd, nid wyf wedi gweld un achos o salwch o ganlyniad i weithio o oedran cynnar neu waith eithafol neu ystum anffafriol o'r corff am ran helaeth o'r dydd.

Dyfyniad 11: Tystiolaeth Dr Andrew Ure, arbenigwr annibynnol

Mae'r allyriadau o'r gweithfeydd mwyndoddi copr yn niweidiol iawn i lysiau ac anifeiliaid. Maent yn cynnwys asid sylffyraidd, asid sylffwrig, arsenig ac asidau arsenaidd, nwyon amrywiol ac anweddau fflworig gyda gronynnau solet yn cael eu dosbarthu i'r aer yn fecanyddol ochr yn ochr â mwg glo. Mae hyn yn arbennig

o nodedig yn ardal Abertawe lle mae'r llystyfiant wedi'i ddinistrio am filltiroedd. Mae ffenestri'r tai wedi'u gorchuddio â dyddodion trwchus ac mae'r aer wedi'i halogi.

FFYNHONNELL 7: Gweithwyr copr o Gymru yn mudo yn y 19eg ganrif (Amgueddfa Cymru)

Roedd Cymru ar flaen y gad ym maes mwyndoddi copr yn y 19eg ganrif. Roedd y gweithfeydd yn ardaloedd Abertawe a Chaergybi yn cyflenwi dros 50% o gopr y byd.

Yn raddol, fodd bynnag, dechreuodd y gwledydd eraill a chanddynt ddyddodion copr enfawr, achub y blaen ar Gymru. Yn sgil y natur gystadleuol hon, dechreuodd y diwydiant copr yng Nghymru wneud llai o elw a chafodd llawer o weithwyr eu diswyddo.

Cafodd nifer o'r rhai a symudodd i Awstralia lwyddiant mawr. Yn Awstralia roedd llawer iawn o ddyddodion copr a arweiniodd at dwf trefi o gwmpas Gwlff Spencer, De Awstralia o'r 1860au - trefi oedd yn dibynnu bron yn llwyr ar weithwyr o Gymru. Roedd y gweithfeydd yn Burra Burra, De Awstralia, yn berchen i Gymry a'r gweithwyr yn dod o ardaloedd Llŵchwr a Llanelli. Sefydlu y gweithfeydd hyn wnaeth arwain yn y pen-draw at y cwmp ym mhwsigrwydd Abertawe i'r diwydiant copr.

Er bod llawer o'r gweithwyr copr o Gymru a ymfudodd wedi byw bywydau llwyddiannus, nid oedd bywydau a sefyllfa waith pawb yn well mewn gwlad dramor. Mae'r llun isod yn dangos torwyr ifanc ('breaker boys') yn gweithio yn y diwydiant glo yn Hughestown, Pennsylvania ym 1911.



AMGUEDDFA CYMRU

FFYNHONNELL 7

Swydd torrwr ifanc oedd gwahanu amhureddau o lo gyda llaw mewn torrwr glo. Roedd hyn yn waith caled, amhleserus a pheryglus yn aml, ac roedd niwed i ddwylo a bysedd yn beth cyffredin. Ar y pryd, nid oedd unrhyw gyfreithiau llafur plant yn yr Unol Daleithiau.

Yn aml roedd mudo yn opsiwn llwyddiannus ond nid oedd hyn yn wir bob tro. Pan oedd pobl yn symud i wlad dramor, yn aml roedd swydd yn eu haros gan fod teulu a ffrindiau wedi ymgartrefu yno eisoes mewn cymuned o bobl o'u mamwlad, ond nid bob tro. Yn aml, byddai gwragedd a phlant yn teithio fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd lawer ar ôl y dynion. Roedd rhai mudwyr yn byw bywydau diddorol. Symudodd Abraham T. Lewis, a aned ym Mrymbo ym 1840, i chwilio am waith yn y diwydiant glo yn Hanley, Swydd Stafford, yna Shenandoah, Pennsylvania. Ym 1879 symudodd i dref fwyngloddio arian Russell Gulch yn Colorado, yna i Dirigaeth Washington cyn cael ei ladd mewn ffrwydrad mewn pwll glo yng Nghanaada ym 1887.

Llwyddodd rhai ymfudwyr o Gymru, i ddod yn enwog, gwneud, neu golli ffortiwn enfawr. Dychwelodd rhai ohonynt i Gymru yn y pen draw, ond nid pawb.

TO EMIGRANTS
TO AMERICA.

The fine fast-sailing first class Ship,
TRITON,
of Cardigan, (David Rees, Master,)
burthen 400 Tons, will be fitted out
for Emigrants, with every necessary
accommodations, and will sail on or
about the latter end of February,
1841,

FROM
CARDIGAN FOR NEW YORK,
UNITED STATES OF AMERICA.

She will be found very convenient for the Inhabitants of South Wales, who
intend going to that Country.

Those, therefore, desirous of securing a passage on Board, are requested to
apply immediately, or transmit their names to the Office of the Owner, Mr. D.
Davies, Merchant, Bridgend, Cardigan.

Ymfudwyr i America.

Y Llong dda hwylys, TRITON, o Abertifi, (David Rees, Meistr,) 400 o
Tonellu, a waerir yu gyffwrus o bob peth angenrheidiol i Ymfudwyr i America,
a i hwylio addunt diwedd Chwefror, 1841, o Abertifi am Uned Dairthnos
Caerfyr Newydd. Bydd y Llong hon yu gyffwrus acilluol i Drigolion
Deheu Cymru.

Os maeis, gan hysp, wr hysp hysp a ddyswysent sicrhau llydyn eu hysp
drosolwyddiad wr-ol-lwydd, ymhall, neu ddawisau eu hyspwr-Grŵa hysp
nyddia y Heddiannydd, Mr. D. Davies, Marchwr, Pen-y-bont, Abertifi

ISAAC THOMAS, PRINTER, ST. MARK-STREET, CARDIGAN.

FFYNHONNELL 8: Dyfyniadau o lyfr Cylchgrawn *BBC History, 100 Places that made Britain*, gan David Musgrove, a gyhoeddwyd ar 2 Mehefin 2011.

Mae Chris Evans, athro hanes ym Mhrifysgol Morgannwg yn egluro sut i ymchwilio i hanes y diwydiant copr drwy ymweld â safle Gweithfeydd Copr White Rock ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Rhwng canol dinas Abertawe a stadiwm chwaraeon Liberty mae hafan o wyrddni. Ganrif neu ddwy yn ôl roedd yr ardal yn llawn mwg a diwydiant gan mai yma oedd hen safle Gweithfeydd Copr White Rock. Gan mai daearyddiaeth oedd y ffactor allweddol wrth benderfynu ar leoliad ffwrneisi mwyndoddi, roedd yr holl weithfeydd copr wedi'u cywasgu i ardal gyfyng iawn. Gallech fod wedi cerdded ar draws yr ardal ddiwydiannol bwysig hon mewn diwrnod, yn ôl Evans, a gallwch wneud yr un peth nawr, ond mae angen i chi ddefnyddio rywfaint ar eich dychymyg er mwyn dyfalu beth oedd yno yn y gorffennol.

Dylech ddechrau eich ymweliad yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar ochr y cei yn Abertawe. Ewch i edrych o amgylch yr adeilad a gallwch gael ychydig o gefndir y Chwyldro Diwydiannol yng Nghymru. Tra byddwch yn yr amgueddfa, edrychwch i weld a allwch ddod o hyd i brint o'r paentiad

o Weithfeydd Copr White Rock gan Henri Gastineau (tua 1830), sy'n rhoi syniad i chi o sut olwg oedd ar y dirwedd yn y gorffennol.

Yna, ewch am dro ar hyd yr afon, gan fynd i'r gogledd tuag at y ddinas; croeswch y Bont Hwyllo a cherddwch ar hyd ochr afon Tawe ar lwybr beicio 43. Mae'n daith bleserus drwy'r coed a fydd yn eich tywys i adfeilion gweithfeydd White Rock. Rhybudd: er bod y lle wedi'i ddynodi'n Barc Treftadaeth Ddiwydiannol gan Gyngor Abertawe, nid oes llawer o arwyddion na gwybodaeth yno. Os byddwch yn cyrraedd y maes parcio ger y gylchfan gyda Stadiwm Liberty o'ch blaen, throwch yn ôl – rydych newydd fynd heibio iddo.

Mae Evans yn egluro'r hyn y gallwch ei weld: "Ceir glanfeydd sydd bellach yn adfeilion, yn dyddio o'r cyfnod pan sefydlwyd y gweithfeydd, ac mae hen odynau a gweithfeydd storio yno. Mae hefyd ramp enfawr a arferai gludo'r sorod i fyny i Fynydd Cilfái. Os edrychwch i fyny Mynydd Cilfái ac edrych ar hyd y dirwedd, gallwch weld llecynnau o sorod sy'n dal i adfer o ganlyniad i natur wenwynig iawn y gwaith mwyndoddi copr."

FFYNHONNELL 8

Caeodd y gweithfeydd ym 1929 oherwydd ei bod yn rhatach erbyn hynny i fwyndoddi'r mwyn ger y lle y câi ei gloddio, ond ni chafodd y tomenni gwastraff eu clirio tan 1967. Efallai mai'r safle mwyaf atmosfferig yw'r hen ddoc ar yr afon, lle nad oes angen llawer o ddychymyg i weld y cychod camlas yn dod â'r mwyn ac yn cludo'r cynnyrch copr terfynol ymaith.

Dechreuwyd gweithfeydd White Rock gan gwmni o Fryste ym 1737. Drwy barhau ychydig ymhellach i'r gogledd ar hyd yr afon, gan groesi ychydig cyn y stadiwm a throi'n ôl, byddwch yn cyrraedd adeiladau Gweithfeydd Copr Hafod, sydd ar ganol project adfywio ar hyn o bryd.

YMFUDO A LLAFUR PLANT YM MAES MWYNGLODDIO AUR CYFOES

FFYNHONNELL 1: Dyfyniadau o adroddiad International Organisation for Migration, Mawrth 2012.

Mae'r cynnydd ym mhris aur wedi denu mwy o ymfudwyr o Mali, Guinea, Gambia, Ghana, Burkina Faso, Togo a Nigeria sy'n chwilio am waith mewn mwyngloddiau bach yn Kédougou ac ardaloedd eraill ar hyd Llain Aur Gorllewin Affrica.

Amodau gwaith

Mewn gwrthgyferbyniad â'r technolegau cyfoes a ddefnyddir gan gwmnïau tramor preifat, mae'r mwyngloddwyr crefftus traddodiadol hyn ... yn gwneud gwaith peryglus. Mae grwpiau bach o ddynion a phlant yn gweithio tua 10 awr y dydd, gan fwyngloddio siafftiau 10 i 15 metr o ddyfnder, gan ddefnyddio pwliau dros dro i halio bwcedi llawn mwyn a'i daro er mwyn dod o hyd i aur gan ddefnyddio mercwri gwenwynig iawn.

Cyfreithiau aneffeithiol

Mae ymfudwyr sy'n gweithio ym maes mwyngloddio artisan yn gallu symud yn hawdd ac maent yn symud yn barhaus i safleoedd newydd gyda chyn lleied o eiddo personol â phosibl. Er gwaethaf cyfraith gyfredol sydd â darpariaethau i amddiffyn mwyngloddwyr artisan, nid yw'r sector yn cael ei

reoleiddio'n swyddogol gan Lywodraeth Senegal. O ganlyniad i anawsterau o ran cael mynediad i safleoedd mwyngloddio, nid yw archwiliadau llafur yn cael eu cynnal a dim ond ychydig o fynediad i wasanaethau cyhoeddus sylfaenol, gan gynnwys gofal iechyd, a gaiff y mwyngloddwyr, os cânt fynediad iddynt o gwbl.

Goblygiadau iechyd

Mae mwyngloddwyr yn dioddef pennau tost; poen yn eu cefnau, eu hysgwyddau a'u cyhyrau; blinder eithafol; a phoenau yn y stumog. Mae merched a phlant, sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith golchi aur, mewn perygl o gael eu gwenwyno gan fercwri gwenwynig sy'n cael ei amsugno drwy'r croen neu ei fewnanadlu. Mae'r gwenwyn hwn yn ymosod ar y system nerfol ganolog a gall hefyd niweidio'r ysgyfaint, yr arennau, y llwybr gastroberfeddol a'r system imiwnedd.

FFYNHONNELL 2: Dyfyniadau o *Ghana Web Regional News*, Dydd Llun, 27 Ebrill 2015

Mae gweithgareddau mwyngloddio anghyfreithlon yn atal plant rhag cael dyfodol mwy disglair ac addysgol mewn rhai rhannau o'r Rhanbarth Dwyreiniol Uchaf. Yn ôl adroddiad Narkwor Kwabla, TV3, nid oedd un plentyn wedi cwblhau Ysgol Uwchradd mewn un o'r tair cymuned y bu'n ymweld â hwy. Mae llond llaw o blant yn yr ysgol, ond mae'r mwyafrif yn gweithio gyda'u rhieni mewn pyllau (galamsey) mwyngloddio anghyfreithlon.

Nid oedd rhieni yn ymwybodol bod addysg yn cynnig y cyfle a'r hyder i'w plant adeiladu dyfodol iddynt hwy eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau. Dywed yr athrawon eu bod yn ymdrechu i gael rhieni i ddeall y bydd addysg yn galluogi'r gymuned i leihau tlodi drwy sicrhau swyddi sy'n talu'n well, ond ofer yw'r ymdrechion.

FFYNHONNELL 3: Dyfyniadau o adroddiad gan Jessica Hopper o *NBC TV News* ar-lein, Rhagfyr 2011.

Mae Samba Diarra, sy'n 15 oed, yn un o 20,000 neu fwy o blant sy'n gweithio mewn mwyngloddiau artisan ym Mali. Mudodd a theithiodd 200 o filltiroedd i fyw mewn cwt plastig ar ei ben ei hun a gweithio mewn mwynglawdd aur artisan ym Mali. Aeth y bachgen yn ei arddegau yno er mwyn helpu i gynnal ei bum brawd a'i chwaer sy'n iau nag ef.

Mae adroddiad Hawliau Dynol diweddar o'r enw, "A Poisonous Mix: Child Labor, Mercury and Artisanal Gold Mining in Mali," yn rhoi manylion am amodau gwaith dychrynlyd:

...Mae'r plant sy'n gweithio yn y mwyngloddiau, rhai mor ifanc â chwech oed, yn helpu i gloddio siafftiau gyda chaib, cario a chludo bagiau trwm yn llawn mwyn a rhidyllu aur gan ddefnyddio proses sy'n cynnwys mercwri. "Nid yn unig mae'n waith caled sy'n eich blino chi, ond mae'n waith caled sy'n rhoi poen i chi bob dydd: pennau tost, cefn tost, cymalau sy'n gwynegu a bydd yn achosi anaf hirdymor i asgwrn cefn rhai o'r plant hyn sy'n fach iawn ac yn cario llwythi trwm iawn," meddai Juliane Kippenberg o HRW.

Treuliodd Diarra ei ddiwrnod cyntaf yn halio mwyn aur a gloddiwyd gan ddynion a oedd yn gweithio'n ddwfn o dan y ddaear. Ar ddiwedd ei ddiwrnod cyntaf, cafodd ei dalu â bag o faw. Mae aur yn masnachu ar gyfradd o \$1,742 yr owns ar hyn o bryd.

"Ar ôl i mi olchi a mireinio'r bag o faw, byddaf yn cael tâl am yr aur a allai fod y tu mewn iddo. Mae rhai plant sy'n gweithio yn y mwyngloddiau nad ydynt byth yn cael eu talu. Mae'r rhai sy'n cael eu talu yn ennill ychydig o ddoleri'r wythnos yn unig.

FFYNHONNELL 4: Adroddiad ar fwyngloddio aur ym Mheriw gan Deborah Hastings, *New York Daily News*, Chwefror 2011.

Caiff plant ym Mheriw eu cadw fel caethweision a'u gorfodi i weithio mewn mwyngloddiau sy'n cynhyrchu llawer o aur y byd. Mae afiechyd, andwyo a gwenwyno oll yn rhan o fywyd gwaith i bobl ifanc sy'n mwyngloddio aur. Caiff merched eu defnyddio fel caethweision rhyw, yn ôl adroddiad newydd.

Mae yna hanes am "Gordo", y cafodd ei deulu ei hel o'i fferm gan fasnachwyr cyffuriau o Beriw, a'i adael heb unrhyw ddewis yn 12 oed heblaw mynd i weithio yn y mwyngloddiau neu wynebu newyn. Gweithiodd am chwe blynedd. Ei gyflog? Bwyd a mat i gysgu arno.

Mae adroddiad newydd grymus gan grŵp hawliau llafur yr Unol Daleithiau 'Verite' yn adrodd y storïau dychrynlyd hynny a rhai eraill mewn arolwg 18 mis a gynhaliwyd yn rhanbarthau mwyngloddio Periw. Y wlad hon yw un o brif gynhyrchwyr aur y byd, ond mae ymchwil Verite yn dangos bod mwy nag 20% o'r metel gwerthfawr yn cael ei fwyngloddio'n anghyfreithlon, o dan amodau caethweision, gan blant ac eraill nad ydynt yn derbyn cyflog. Yn aml, nid yw gweithwyr yn cael unrhyw gyflog ... Mae pa bynnag aur y maent yn llwyddo i ddod o hyd iddo yn cyfrif fel eu tâl, yn ôl yr adroddiad.

Periw yw'r pedwerydd cynhyrchydd aur mwyaf yn y byd ... Mae aur yn fusnes gwerth \$3 biliwn y flwyddyn yn y wlad yn Ne America.

Yn ogystal â chyflog is na'r arfer, neu ddim cyflog o gwbl ar adegau, mae mwyngloddwyr hefyd yn wynebu materion iechyd yn y mwyngloddiau ynysig yn y jyngl, gan gynnwys damweiniau diwydiannol sy'n achosi anafiadau difrifol, malaria a gwenwyno gan fercwri.

FFYNHONNELL 5: O erthygl gan Larry C Price, newyddiadurwr ffotograffig sydd wedi ennill Gwobr Pulitzer, ar gyfer *Pulitzer Centre*, Ebrill, 2013

Mewn chwarter canrif, mae Burkina Faso, un o wledydd tlotaf y byd, wedi trawsnewid i fod y pedwerydd cynhyrchydd aur mwyaf yn Affrica. Ond beth yw'r gost i'r plant sy'n gweithio yn y mwyngloddiau?

Mae Burkina Faso yn wlad dirgaeedig rhwng Mali a Niger i'r gogledd orllewin a'r dwyrain, ac yn ffinio â Ghana i'r de. Dechreuodd y diwydiant mwyngloddio artisan (neu raddfa fach) yn dilyn newynau 1980au pan fu'n rhaid i deuluoedd

adael eu ffermydd. Ers hynny, mae miloedd wedi ymfudo i'r caeau aur, gan adael eu bywydau ar y fferm i lafurio yn y gweithiau mwyngloddio graddfa fach ledled y wlad.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr elw, mae teuluoedd cyfan yn gweithio. Ac mae hyn yn golygu rhoi plant i weithio fel llafurwyr. Daw plant i gysylltiad â pheryglon cemegol, peirianwaith peryglus a llafur trwm.

Yn swyddogol, mae llafur plant yn erbyn y gyfraith ond mae mwyngloddio aur ar raddfa fach wedi datblygu i fod yn fusnes allforio mwyaf ond dau y wlad. Mae arweinwyr ac entrepreneuriaid, sy'n awyddus i fanteisio ar y cronfeydd mawr, yn aml yn troi llygad ddall neu hyd yn oed yn croesawu'r llafur ychwanegol a ddarperir gan blant.



FFYNHONNELL 6: Datganiad i'r wasg *Interpol*, 5 Tachwedd 2010

Heddlu Burkina Faso yn achub mwy na 100 o ddioddefwyr masnachu plant yn ystod ymgyrch a gefnogwyd gan INTERPOL

Lyon, Ffrainc – Mae mwy na 100 o ddioddefwyr masnachu plant posibl wedi'u darganfod a'u rhoi mewn gofal ac mae 11 o unigolion wedi'u harestio yn dilyn ymgyrch a arweiniwyd gan yr heddlu yn Burkina Faso ac a gefnogwyd gan INTERPOL. Mae dwsinau'n fwy o blant hefyd wedi cael eu dychwelyd at eu teuluoedd nawr yn dilyn ymchwiliadau i lafur plant. Cynhaliwyd “Operation Cascades” (25–27 Hydref), a oedd yn cynnwys dros 100 o swyddogion yr heddlu, ar draws rhanbarth Rhaeadrau gorllewinol Burkina Faso ac yn y brif ddinas Ouagadougou.

Yn ystod yr ymgyrch a gynhaliwyd dros dridiau, bu swyddogion yr heddlu yn canolbwyntio ar y prif ffyrdd a oedd yn cysylltu prif ddinas Burkina Faso â rhanbarthau eraill yn y wlad a gwledydd eraill, a hefyd buont yn cyrchu chwareli mwyngloddio aur a weithredwyd yn anghyfreithlon yn rhanbarth y Rhaeadrau. Aeth yr awdurdodau â 177 o blant dan eu gofal, gan roi 103 o blant yr



GETTY IMAGES NEWS VEONIQUE DE VIGUERIE

amheuwyd eu bod wedi'u masnachu dan ofal y gwasanaethau cymdeithasol, a dychwelyd 74 o blant eraill i'w teuluoedd fel rhan o ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ... yn erbyn plant sy'n agored i drais, llafur wedi'i orfodi, camdriniaeth rywiol, ac sydd wedi mynd heb fwyd, lloches, addysg a gofal meddygol.